| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR PENSIYNAU |
| DYDDIAD | 5 GORFFENNAF 2010 |
| TEITL | POLISI BUDDSODDI |
| AWDUR | DILWYN WILLIAMS<br>CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL |

1 Mae Arweinydd y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth Grwp Cyfiawnder a Heddwch Arfon yn gofyn i'r Pwyllgor gadarnhau a oes ganddo fuddsoddiadau mewn cwmniau arfau ac i gael trafodaethau ar y posibilrwydd o beidio a buddsoddi mewn cwmniau o'r fath. Mae'r llythyr hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor ymatal rhag buddsoddi mewn cwmniau sy'n buddsoddi yn Israel.

2 Mae'r pwnc o fuddsoddi moesegol wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor ar sawl achlysur a chafodd ei drafod ddiwethaf yn Rhagfyr 2007. Mae copi o'r cofnod perthnasol ynghlwm fel atodiad.

3 Ers hynny derbyniwyd adroddiad gan Hymans Robertson sydd yn cyfeirio at ddefnyddio perchnogaeth cyfranddaliadau mewn ffordd adeiladol ond nid yw'n mynd i wraidd buddsoddi moesegol.

4 Gofynnir i'r Pwyllgor adolygu'r sefyllfa bresennol a phenderfynnu ar y ffordd ymlaen.

**2. BUDDSODDI MOESEGOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn nodi fod cwestiynau'n codi'n gyson ynglŷn â 'buddsoddi moesegol' neu 'buddsoddi cyfrifol'.
Ychwanegodd mai un o'r 'gwelliannau' arfaethedig yng nghynllun busnes y Cyngor yw bod y strategaeth ynglŷn â buddsoddi moesegol yn cael ei egluro'n llawn. 'Roedd y Pennaeth Cyllid felly am i'r aelodau ystyried pa ffordd ddylid ei dilyn.
Gwnaed cryn waith ymchwil i'r maes, ac yn sgil hyn, 'roedd yr adroddiad yn egluro'r prif ystyriaethau.
Cyfeiriodd y swyddog at wahanol ddulliau o fuddsoddi moesegol:

- Meini Prawf Negyddol (Sgrinio) (*osgoi buddsoddiadau sy'n cael eu hystyried yn anfoesegol, fel baco, alcohol ac arfau)*

- Meini Prawf Positif (*Targedu buddsoddiadau sy'n gweithredu er lles yr amgylchedd fel ynni cynaliadwy, ailgylchu ayyb)*

- Cysylltu a Thrafod (*Trafod gyda'r cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt er mwyn herio ac adnabod eu hygrededd moesegol nhw, a defnyddio'r cyswllt i ddylanwadu oddi fewn i'r gwrthbartion)*

Adroddodd y Pennaeth Cyllid ymhellach ar yr anawsterau gyda meini prawf negyddol a phositif. Yn ogystal, cyflwynodd wybodaeth am y tueddiadau diweddar ym maes Cysylltu a Thrafod i roi'r pwyslais ar 'engagement' sef trafod (drwy'r rheolwyr buddsoddi) gyda'r cwmnïau am bryderon, croesawu arfer da a hyrwyddo gwell gwybodaeth. Os yw'r ymateb yn anfoddhaol, gellir pleidleisio yn erbyn cymeradwyo adroddiad blynyddol y cwmni.
Adroddodd y swyddog y gellid holi'r rheolwyr buddsoddi yn amlach, fel y gellir creu trafodaeth foesegol. Ychwanegodd y byddai modd i 'Hymans' ymchwilio er mwyn dangos os oes gan rai o reolwyr buddsoddi cyfredol y Cyngor bolisïau moesegol neu gymdeithasol-gyfrifol.
Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau at yr anhawster o fodloni 'moesau' pawb, ac y gellid wynebu beirniadaeth pe byddai buddsoddi moesegol yn amharu'n sylweddol ar dwf buddsoddiadau.
Nododd aelod na ddylid ymyrryd yn ormodol gan y gallai penderfyniadau i beidio buddsoddi mewn rhai meysydd, fel baco, gael effaith andwyol ar weithwyr tlawd mewn rhai gwledydd. Awgrymwyd hefyd y gellid buddsoddi canran o'r Gronfa yn foesegol, ond rhybuddiwyd y gallasai hyn hefyd greu anhawster pe byddai i'r canran mewn buddsoddiadau moesegol berfformio'n wael.
Rhoddwyd ystyriaeth ddwys i fabwysiadu'r drefn gymdeithasol, amgylcheddol a moesol canlynol:

- Y prif amcan o fuddsoddi'r Gronfa yw cyflawni'r enillion ariannol gorau wedi'i gysoni gyda graddau derbyniol o risg.

- Fodd bynnag, mae'r Gronfa yn adnabod fod cwmnïau yn medru gwella eu perfformiad hirdymor a chynyddu eu henillion ariannol trwy fabwysiadu egwyddorion positif yng nghyswllt y gymdeithas, yr amgylchedd a moeseg wrth gynllunio eu gweithgaredd.

- Mae'r Gronfa'n dirprwyo'r cyfrifoldeb am ystyried materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol i'r rheolwyr buddsoddi wrth iddynt asesu potensial ariannol a phriodoldeb eu buddsoddiadau. Dylai'r rheolwyr buddsoddi weithio'n bositif gyda'r cwmnïau er mwyn hyrwyddo safonau

cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol blaengar, yn hytrach na mabwysiadu polisi o ‘sgrinio’ buddsoddiadau yn negyddol.

**PENDERFYNWYD pwyllo ychydig cyn cymryd camau ffurfiol i’r cyfeiriad yma, gofyn i Gwmni Hymans adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf gydag ymdrin â buddsoddi moesegol ac yn benodol, a oes yna unrhyw dystiolaeth ynglŷn â dychweliadau cronfeydd ‘moesegol’, a chyflwyno adroddiad Hymans i’r Pwyllgor hwn.**